



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: LC45915

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Diwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru

Rydym yn ceisio eich barn yn yr ymgynghoriad hwn ar ddiwygiadau i ardrethi annomestig, gan greu cyfleoedd i wneud gwelliannau sy'n benodol i Gymru er mwyn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn well.

Dyddiad cyhoeddi: **21 Medi 2022**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **14 Rhagfyr 2022**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.

**OGL** © Hawlfraint y Goron

## **Sut i ymateb**

Dylech gyflwyno eich sylwadau erbyn hanner nos ar **14 Rhagfyr 2022**, mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol.

- Llenwi ein ffurflen ar-lein
- Lawrlwytho, llenwi ein ffurflen ymateb ac e-bostio i: [LGFR.Ymgynghoriadau@llyw.cymru](mailto:LGFR.Ymgynghoriadau@llyw.cymru)
- Lawrlwytho ein ffurflen ymateb, ei llenwi a'i phostio i:

Y Gangen Polisi Ardrethi Annomestig  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**

Mae fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r ymgynghoriad hwn ar gael [yma](#). Mae fersiynau print mawr, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## **Manylion cyswllt**

Am wybodaeth bellach:

Y Gangen Polisi Ardrethi Annomestig  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [LGFR.Ymgynghoriadau@llyw.cymru](mailto:LGFR.Ymgynghoriadau@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn [Saesneg](#).

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ  
e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llwy.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llwy.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF  
Tel: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

# Cynnwys

<b>Diwygio ardrethi annomestig yng Nghymru</b>	<b>5</b>
<b>Diben ardrethi annomestig</b>	<b>6</b>
<b>Cwmpas ein cynigion</b>	<b>11</b>
<b>Galluogi ailbrisiadau mwy rheolaidd</b>	<b>13</b>
<b>Darparu rhyddhadau ac esemptiadau</b>	<b>25</b>
<b>Amrywio'r lluosydd</b>	<b>29</b>
<b>Gwelliannau i'r broses o weinyddu prisiadau a rhestrau ardrethu</b>	<b>31</b>
<b>Dulliau gweithredu eraill mewn perthynas â chodi trethi lleol</b>	<b>37</b>
<b>Cwestiynau'r ymgynghoriad</b>	<b>38</b>
<b>Y camau nesaf</b>	<b>40</b>

# Diwygio ardrethi annomestig yng Nghymru

Mae ein [Rhaglen Lywodraethu](#) yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer economi wyrddach a chymdeithas decach, fwy cyfartal. Mae ein cynlluniau ar gyfer economi Cymru wedi'u nodi yn ein [Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#) a'n [Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi](#) ac maent yn seiliedig ar ddatblygu economi sylfaenol sy'n adlewyrchu gwerthoedd partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg.

Yn gysylltiedig â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno'r achos o blaid proses glir a sefydlog ar gyfer datganoli trethi ac i ddiwygio'r ddwy dreth leol yng Nghymru – ardrethu annomestig a'r dreth gyngor – fel cyfranwyr allweddol at y broses o ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Byddwn yn gwella'r ddwy system er mwyn helpu i gyflawni llawer o'r nodau polisi yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer diwygio'r system ardrethi annomestig yng Nghymru ac mae'n bartner i'r ymgynghoriad [Treth Gyngor Decach](#) a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf.

Ynghyd â buddiannau system trethiant lleol fwy effeithiol wedi'i llywio gan bolisi i Gymru gyfan, bydd ein cynigion yn arwain at system fwy ymatebol ac effeithlon i dalwyr ardrethi, wedi'i chynllunio i adlewyrchu'r amodau economaidd a chymdeithasol ymhell i'r dyfodol. Rydym hefyd am sicrhau bod talwyr ardrethi yn gwneud cyfraniad teg ac am wneud mwy o waith i atal achosion o osgoi talu.

Rydym yn lansio'r ymgynghoriad hwn ar adeg pan fo'r argyfwng costau byw eisoes yn effeithio ar fusnesau a'u cyflogeion ledled Cymru, o ganlyniad i'r cynnydd mewn prisiau nwyddau, gwasanaethau a chostau ynni. Bydd yr heriau hyn yn parhau yn rhan flaenllaw o'n hystyriaethau, er y bydd angen amser i weithredu'r newidiadau a amlinellir yn y ddogfen hon a'u rhoi ar waith.

## **Ein huchelgais yw cyflwyno system ardrethi annomestig newydd i Gymru. System sy'n gwneud y canlynol:**

- Yn adlewyrchu natur yr economi yng Nghymru yn well, ac yn ystyried newidiadau.
- Yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yng Nghymru ac i Gymru fod yn atebol am y penderfyniadau hynny, gan feithrin y sectorau a'r busnesau rydym am iddynt dyfu.
- Yn golygu bod talwyr ardrethi yn gwneud cyfraniad teg at y gwasanaethau a gânt.
- Yn ariannu gwasanaethau y mae busnesau a'u cyflogeion yn dibynnu arnynt.
- Yn cysylltu busnesau a sefydliadau â chymunedau.

**Rydym am glywed eich barn.**

## Diben ardrethi annomestig

Am fwy na 30 mlynedd, bu ardrethi annomestig yn rhan bwysig o'r ffordd rydym yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Caiff yr holl refeniw a gynhyrchir gan ardrethi annomestig yng Nghymru – dros £1 biliwn bob blwyddyn – ei ddosbarthu i lywodraeth leol er mwyn helpu i ariannu'r gwasanaethau lleol hanfodol y mae pob un ohonom yn eu defnyddio ac mae'n talu am dua 10% o gyfanswm cost y gwasanaethau hynny. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys llawer o wasanaethau sy'n hanfodol er mwyn i fusnesau a sefydliadau weithredu mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy yng Nghymru – addysgu'r gweithlu, darparu seilwaith lleol, galluogi'r amodau ar gyfer menter, arloesedd a thwf, darparu'r systemau trafndiaeth i gludo pobl i'r gwaith, a chefnogi gofal plant i deuluoedd sy'n gweithio. Mae busnesau hefyd yn cael budd o wasanaethau cyhoeddus da yn fwy cyffredinol, er enghraifft cyflogaion, cleientiaid a defnyddwyr â mynediad at addysg, cymunedau llewyrchus a diogel, ac amgylcheddau lleol deniadol ac amrywiol.

Mae sicrhau cyfraniad treth lleol teg a chynaliadwy gan fusnesau a thalwyr ardrethi wedi bod yn gydbwysedd anodd i'w gyflawni erioed, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i adolygu polisi trethiant lleol yn rheolaidd a'i addasu i ymateb i heriau sy'n bodoli eisoes a heriau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r fframwaith cyfreithiol a sefydlodd y system ardrethi annomestig yn 1988 yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli, ond dyma yw sail y rhan fwyaf o bwerau Llywodraeth Cymru (neu ei rhagflaenwyr). Cymhwyswyd y pwerau gwneud polisi hyn ers datganoli yn 1999. Fodd bynnag, rhannwyd ardrethi annomestig o safbwynt ariannol yn ddiweddarach, yn 2015. Dyma pryd y daeth Llywodraeth Cymru yn atebol ar sail gyllidol am yr holl refeniw a gaiff ei godi drwy ardrethi annomestig, gan dderbyn y risgiau cyllidebol sy'n gysylltiedig ag amrywiadau blynyddol.

Ers 2015, rydym wedi gwneud nifer o welliannau sy'n gysylltiedig â'n nodau polisi penodol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn lansio dull gweithredu newydd, gan gynnig newidiadau a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i greu system i gefnogi ein blaenoriaethau.

Mae rhai cyfyngiadau o hyd o ran ein gallu i ddylunio system wedi'i theilwra'n benodol at anghenion Cymru. Mae mandylled ein ffin â Lloegr a'r achos o blaid rhywfaint o gysondeb i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill, y cyfyngiadau ar ein pwerau datganoledig i ddylunio a chodi trethi newydd, graddfa'r swyddogaethau gweithredol, a natur ragnodol y ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn dal i gyfyngu ar ymreolaeth Gweinidogion wrth ddylunio atebion wedi'u teilwra i Gymru.


Mae'r gwaith a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar foderneiddio'r system bresennol er mwyn sicrhau ei bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac yn fwy addas ar gyfer ein huchelgeisiau polisi i Gymru. Bydd y gwaith hwn yn digwydd ar y cyd â gwaith arall ar ddulliau amgen yn hytrach na chodi refeniw lleol, fel systemau trethiant yn seiliedig ar werth tir.

## Sut mae'r system ardrethi annomestig yn gweithredu

Mae'r system trethiant lleol presennol yn gweithredu ar sail hereditamentau (unedau eiddo ag asesiad prisio) sy'n cael eu diffinio'n rhai domestig neu annomestig. Mae hereditamentau domestig yn destun treth gyngor. Codir ardrethi annomestig ar berchenogion neu feddianwyr hereditamentau annomestig, sef term ag iddo ystyr llawer ehangach nag adeilad brics a mortar traddodiadol. Mae'r rhestr ardrethu yn cynnwys hereditamentau megis seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau mawr, e.e. meysydd awyr, rhwydweithiau telathrebu, seilwaith ar gyfer cyflenwi nwy, trydan a dŵr). Nid busnes yw pob talwr ardrethi ac yn sicr nid oes angen eiddo masnachol ar bob busnes i weithredu.


Weithiau, ceir ymwybyddiaeth gyfyngedig o ran ble yr aiff refeniw ardrethi annomestig ac am beth y mae'n talu. Mae ardrethi annomestig yn cyfrannu at gost gwasanaethau lleol hanfodol sy'n cael eu darparu ledled Cymru: gan gadw ysgolion ar agor, sicrhau y gofelir am anwyliaid a galluogi ein cymunedau i ffynnu. Mae cannoedd o wasanaethau lleol a ariennir yn rhannol drwy ardrethi annomestig, nid dim ond gwasanaethau cynghorau, ond gwasanaethau'r heddlu a gwasanaethau tân hefyd. Caiff yr holl refeniw ardrethi annomestig a gesglir ei ddsbarthu i awdurdodau lleol a heddluoedd, a chaiff ei wario ar y gwasanaethau allweddol a amlinellir yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Cyfran gwariant cynghorau ar wasanaethau**




Mae'r sylfaen drethu ardrethi annomestig yn cyfrannu dros £1 biliwn bob blwyddyn tuag at y £10 biliwn y mae'n ei gostio i ariannu'r gwasanaethau yn Ffigur 1. Mae ganddi dros 120,000 o hereditamentau o fewn pedwar prif gategori eiddo: diwydiannol, siopau, swyddfeydd ac eiddo 'arall' (sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o sectorau llai) (Ffigur 2).

**Ffigur 2: Prif categorïau eiddo yn y sylfaen drethu ardrethi annomestig**



O edrych ar werthoedd ardrethol yr eiddo hyn, mae'r mwyafrif o fewn rhan isaf yr ystod, gyda thros eu hanner â gwerth ardrethol islaw £6,000 (Ffigur 3). Mae hyn yn nodwedd bwysig o ardrethi annomestig yng Nghymru ac mae'n diffinio'r dewisiadau polisi a wnawn yn barhaus.

**Ffigur 3: Dosbarthiad hereditamentau yn ôl gwerth ardrethol**



### **Buddiannau'r system bresennol**

Mae gan y system bresennol lawer o fuddiannau y gallai fod angen i ni eu gwarchod fel rhan o drefniadau yn y dyfodol. Y system ardrethi annomestig:

- mae ei chyfradd dreth yn un gyfrannol ac (ar y cyfan) mae'n ffrwd referniw ddibynadwy sy'n parhau i godi lefelau da o referniw yn naturiol ar gyfer gwasanaethau lleol;
- mae'n gweithredu fel cronfa genedlaethol sy'n dosbarthu'r swm a godir ymhlith cynghorau er mwyn caniatáu ar gyfer yr amrywiant mawr yn y gallu i godi trethi, gan sicrhau tegwch cyffredinol;



- mae'n gallu bod yn hyblyg er mwyn rhoi cymorth sylweddol i'r rhai sy'n llai abl i fodloni eu rhwymedigaethau, megis meddianwyr eiddo bach a rhai sectorau yn ystod cyfnodau economaidd anodd;
- mae'n cryfhau cydberthnasau lleol rhwng cyngorau a chymunedau busnes, gan gynnal gwybodaeth leol o'r dirwedd fusnes a hwyluso'r ffordd i greu cysylltiadau â pholisïau economaidd ehangach cyngorau;
- mae'n dreth leol hynod effeithlon sy'n cyflawni cyfraddau casglu o fwy na 97% yn gyson o un flwyddyn i'r llall, gyda chostau gweinyddu isel (llai nag 1% o'r swm a godir);
- mae'n hirhoedlog ac yn fwy anodd i'w hosgoi na mathau eraill o dreth;
- mae'n un o swyddogaethau gweinyddol allweddol cyngorau, gan ddarparu swyddi o safon uchel yn y sector cyhoeddus ym mhob rhan o'r wlad.

Mae'r system bresennol wedi gwrthsefyll prawf amser, ac wedi rhoi ffynhonnell refeniw sefydlog a dibynadwy i lywodraeth leol. Ond mae ganddi ei chyfyngiadau. Mae'n anodd addasu i ymateb i newidiadau yn yr economi ac ni chafodd ei chynllunio'n benodol ar gyfer economi a blaenoriaethau Cymru. Nid yw'n bosibl symud o'r dull presennol yn llwyr yn y tymor byr, ond mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ystyried opsiynau amgen tymor hwy.

### **Yr angen i ddiwygio**

Ar 29 Mawrth 2022, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol [ddatganiad](#) yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio ardrethi annomestig yn ystod tymor y Senedd gyfredol. Mae hyn yn seiliedig ar yr adroddiad [Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau](#) a gyhoeddwyd ar ddiwedd tymor y Senedd flaenorol.

Mae'r sylfaen dreth ardrethi annomestig yn unigryw i Gymru. Ein nod uniongyrchol yw cynnal buddiannau'r dreth leol bresennol, ond gan gyflawni newidiadau a fydd yn gwella'r system gyffredinol ac yn ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg a allai fod yn benodol i Gymru.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn nodi'r uchelgais i sicrhau Cymru decach, wyrddach a chryfach. Mae'r egwyddorion hyn yn sail i unrhyw newidiadau posibl i'r system ardrethi annomestig. Ceir ymrwymiad clir hefyd i sefydlogi'r broses o ddatganoli treth ac i ddeddfu lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud ac y creffir arnynt yng Nghymru, yn hytrach nag yn Senedd y DU. Ar hyn o bryd, mae nifer o ddulliau ysgogi ar gael i Lywodraeth Cymru i newid y ffordd y mae'r system ardrethi annomestig yn gweithredu, ond caiff ystod a hyblygrwydd y dulliau ysgogi hyn eu cyfyngu oherwydd cyfleoedd deddfwriaethol a chyfyngiadau gweithredol. Mae'r agenda ddiwygio yn ceisio ymdrin â'r cyfyngiadau hyn, gan gynnig cyfleoedd i Lywodraeth Cymru addasu ac adnewyddu'r system i Gymru, gan fwrw ati'n benodol i ddylunio elfennau sy'n adlewyrchu ein sylfaen drethu.

Un o nodweddion allweddol y system ardrethi annomestig yng Nghymru yw rôl Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu swyddogaeth brisio i Gymru a Lloegr, sydd wedi arwain at nifer o gyfyngiadau

gweithredol ac, ar brydiau, wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau'n benodol i Gymru. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wrthi'n cynnal prosiect sylweddol i drawsnewid ei systemau a gobeithio y bydd hynny'n arwain at fwy o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r prosesau prisio. Mae hyn yn creu'r potensial i wneud diwygiadau mwy ystyrlon i ardrethi annomestig yng Nghymru yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r cynigion diwygio tymor byr a thymor canolig a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried y potensial ar gyfer treth gwerth tir leol yn lle ardrethi annomestig ac o bosibl y dreth gyngor, gan adeiladu ar [asesiad technegol](#) manwl Prifysgol Bangor yn ystod tymor y Senedd flaenorol. Yn ystod y pedair blynedd nesaf, gwneir cynnydd pellach i fwrw ati â chanfyddiadau'r adroddiad hwnnw, gan fanteisio ar amrywiaeth eang o arbenigedd i feithrin dealltwriaeth glir o ffurf bosibl newid o'r fath a sut y gallai weithio'n ymarferol. Bydd y dadansoddiad hwn yn cynnwys map ffordd posibl i weithio tuag ato.

# Cwmpas ein cynigion

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag amrywiaeth o gynigion a fydd yn gwneud newidiadau hanfodol a chadarnhaol i ardrethi annomestig. Mae'r cynigion hyn yn creu cyfleoedd i wneud gwelliannau yn y dyfodol yn benodol i Gymru er mwyn sicrhau bod y system yn fwy hyblyg ac y gellir ei haddasu'n haws i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a diwallu anghenion yn y dyfodol. Mae ein cynigion yn cynnwys y canlynol.

- **Cylchoedd ailbrisiu mwy rheolaidd**, sef newid y mae llawer o randdeiliaid wedi bod yn galw amdano, i mwyn sicrhau bod prisiadau ardrethi yn cynnig adlewyrchiad mwy cywir o amodau cyfredol y farchnad, ynghyd â'r mesurau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi hyn.
- **Gwella'r llif gwybodaeth** rhwng y llywodraeth a thalwyr ardrethi, gan fanteisio ar wasanaethau digidol modern.
- Rhoi **deddfwriaeth fwy hyblyg** i Lywodraeth Cymru i ddiwygio rhyddhadau ac esemptiadau yn y dyfodol.
- Cynnal **adolygiad o ryddhadau ac esemptiadau** er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn gydnaws â'n Rhaglen Lywodraethu ac y caiff y cymorth sydd ar gael ei dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Rhoi mwy o gyfleoedd i **amrywio'r lluosydd** er mwyn helpu i sicrhau bod codiadau blynyddol yn gydnaws â'n blaenoriaethau datblygu economaidd.
- Gwella'r broses o **weinyddu swyddogaethau prisio a rhestrau ardrethi** er mwyn symleiddio prosesau a lleihau'r baich ar y llywodraeth a thalwyr ardrethi.
- Mesurau pellach i sicrhau y gallwn barhau i fynd i'r afael ag achosion o **osgoi** talu ardrethi.

Mae rhai cynigion yn gwneud gwelliannau penodol yn y tymor byr i'r tymor canolig, ac mae eraill yn ymwneud â dulliau ysgogi polisi a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i addasu a theilwra ardrethi annomestig yn well wrth i amodau newid. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn nodi ein gwaith parhaus i ystyried cyfleoedd ar gyfer diwygiadau mwy radical drwy **ddulliau gweithredu amgen** yn y tymor hwy.

Rydym yn cydnabod bod pob un o wledydd y DU wrthi'n diwygio ei threthi lleol mewn gwahanol ffyrdd. Fel swyddogaeth gyflawni allweddol, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr, mae rhai o'n cynigion, yn eu hanfod, yn adlewyrchu cynigion sy'n cael eu hystyried ar gyfer Lloegr drwy *Adolygiad Ardrethi Busnes* Llywodraeth y DU. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn symud tuag at ailbrisiadau mwy rheolaidd.

Amlinellodd ein *Crynodeb o'r Canfyddiadau* yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â rhoi system trethiant lleol newydd neu gwbl annibynnol ar waith i Gymru. Rydym yn parhau'n barod i ystyried hynny fel opsiwn yn y dyfodol ond, yn y cyfamser, byddwn yn manteisio'n llawn ar y potensial a gynigir gan allu gweithredol uwch a pharodrwydd cynyddol Asiantaeth y Swyddfa Brisio i addasu, i deilwra ein system ardrethi annomestig gan ystyried anghenion Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y gall

fod buddiannau i rai talwyr ardrethi yn sgil rheoli gwelliannau i'r systemau ardrethu ledled y DU mewn ffordd gynlluniedig a chydgyssylltiedig.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar newidiadau penodol y gall fod eu hangen cyn rhoi'r rhestr ardrethi annomestig nesaf ar waith, yn dilyn ailbrisiad a gynhelir ar 1 Ebrill 2023. Caiff unrhyw newidiadau o'r fath eu hystyried ar wahân, wrth i fwy o wybodaeth gael ei rhyddhau am effaith yr ailbrisiad.

Er mwyn gweithredu llawer o'r cynigion y mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio arnynt, byddai angen cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Mewn [datganiad](#) diweddar ar y rhaglen ddeddfwriaethol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i gyflwyno Bil cyllid llywodraeth leol tuag at ddiwedd 2023. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, gallai'r Bil gynnig cyfle i roi rhai o'r cynigion hyn ar waith.

Bydd pob cynnig sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am ddull gweithredu cydgysylltiedig a chydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisiol, llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill. Mae angen amser er mwyn rhoi newidiadau a wneir drwy ddeddfwriaeth ar waith yn llwyddiannus.

Mae'r ymgynghoriad ar agor am gyfnod o 12 wythnos a bydd yn cau ar 14 Rhagfyr 2022. Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, bydd amrywiaeth o gyfleoedd ymgysylltu pellach ynghylch agweddau penodol ar ddiwygio ardrethi annomestig.

Dim ond i Gymru y mae'r ymgynghoriad yn berthnasol.

# Galluogi ailbrisiadau mwy rheolaidd

Mae'r adran hon yn ceisio barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ailbrisiadau mwy rheolaidd ar gyfer ardrethi annomestig, gan gynnwys amrywiaeth o fesurau y byddai eu hangen er mwyn gwneud hynny.

## Y cylch ailbrisio

Mae atebolrwydd o ran ardrethi annomestig yn seiliedig ar werthoedd ardrethol sydd, yn gyffredinol, yn adlewyrchu gwerthoedd rhentu blynyddol. Mae dros 120,000 o hereditamentau yng Nghymru sy'n agored i dalu ardrethi annomestig. Caiff gwerthoedd ardrethol eu pennu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac maent yn ymddangos ar restrau ardrethi annomestig. Mae rhestr leol ar gyfer eiddo ym mhob awdurdod lleol a rhestr ganolog ar gyfer mathau penodol o eiddo sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol (e.e. cyfleustodau). Yr enw ar y broses o ailasesu gwerthoedd ardrethol yn rheolaidd a llunio restrau ardrethi annomestig newydd yw ailbrisiad.

Ar hyn o bryd, y cyfnod diofyn ar gyfer cynnal ailbrisiadau yng Nghymru yw bob pum mlynedd a chynhelir yr ailbrisiad nesaf ar 1 Ebrill 2023. Mae pob un o wledydd y DU yn ystyried cylchoedd ailbrisio byrrach er mwyn gwella tegwch y system ardrethi annomestig a'i hymatebolrwydd i newidiadau economaidd.

## **Cylch tair blynedd**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr achos o blaid cylch mwy cyflym ac ymatebol a'r awydd ymhlith rhanddeiliaid i gynnal ailbrisiadau yn fwy aml na phob pum mlynedd. Rydym yn cynnig deddfu i gynyddu'r amllder i bob tair blynedd. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwella tegwch, erbyn drwy sicrhau bod atebolrwydd yn ymateb i newidiadau economaidd, a sefydlogrwydd i dalwyr ardrethi. O dan y cynnig hwn, byddai'r ailbrisiad nesaf ar ôl 1 Ebrill 2023 yn cael ei gynnal ar 1 Ebrill 2026.

## **Newid dyddiadau ailbrisio**

Rhwng 1990 a 2010, cynhaliwyd ailbrisiadau bob pum mlynedd. Oherwydd cyddestun economaidd heriol dechrau'r 2010au, gohiriwyd yr ailbrisiad y bwriadwyd ei gynnal yn 2015 tan 2017 yng Nghymru a Lloegr, er mwyn rhoi sicrwydd i dalwyr ardrethi am eu hatebolrwydd wrth i'r economi adfer. Yn dilyn ailbrisiad 2017, penderfynwyd cynnal yr ailbrisiad nesaf yn gynt, ar 1 Ebrill 2021 yn lle 1 Ebrill 2022. Yn dilyn hynny, fe'i symudwyd i 1 Ebrill 2023 er mwyn ystyried effaith pandemig y coronafeirws. Roedd angen deddfwriaeth sylfaenol ar rai o'r newidiadau hyn ac fe'u cyflawnwyd drwy ofyn am ddarpariaethau i Gymru mewn cyfreithiau a wnaed gan Lywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, yn yr hir dymor, y gall fod uchelgais ar gyfer cylchoedd byrrach na'r cylchoedd bob tair blynedd a gynigiwyd. Os bydd modd cyflawni hyn yn ymarferol, gan weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu pennu dyddiad ailbrisio amgen neu newid amllder cylchoedd yn y dyfodol. Mae cyfleoedd i weithredu deddfwriaeth sylfaenol sy'n benodol i Gymru yn fwy cyfyngedig na chyfleoedd i wneud is-ddeddfwriaeth, fel

rheoliadau. Mae hyn yn gosod cryn gyfyngiadau ar allu Llywodraeth Cymru i weithredu penderfyniadau o'r fath yn y dyfodol, yn enwedig pan fydd angen ymateb yn gyflym i amodau economaidd newidiol neu lle byddai penderfyniadau yn arwain at achos o wyro o'r cylchoedd ailbrisiu sydd wedi'u mabwysiadu mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig dileu'r angen ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol er mwyn pennu dyddiad ailbrisiu amgen neu newid amllder cylchoedd diofyn yn y dyfodol. Yn hytrach, cynigir y dylai bod modd gwneud newidiadau o'r fath drwy reoliadau, y byddai'r Senedd yn craffu arnynt. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd ymarferol mwy i Lywodraeth Cymru newid dyddiadau ailbrisiu yn benodol i Gymru yn y dyfodol.

### **Dyddiad prisio rhagflaenol**

Mae cwblhau ailbrisiad o'r holl hereditamentau yn dasg gymhleth a llafurus i Asiantaeth y Swyddfa Brisiu ac mae angen adnoddau sylweddol. Am y rheswm hwn, ac er mwyn sicrhau y caiff talwyr ardrethi eu trethu'n gyson, mae gwerthoedd ardrethol yn seiliedig ar dystiolaeth brisiu ar adeg benodol mewn amser, sef y Dyddiad Prisio Rhagflaenol, cyn gweithredu'r ailbrisiad. Mae'r Dyddiad Prisio Rhagflaenol bob amser wedi'i bennu ddwy flynedd cyn dyddiad yr ailbrisiad. Er enghraifft, bydd ailbrisiad 1 Ebrill 2023 yn seiliedig ar werthoedd ar Ddyddiad Prisio Rhagflaenol 1 Ebrill 2021. Mae Dyddiad Prisio Rhagflaenol yn helpu i sicrhau cysondeb a thegwch yn y sylfaen drethu gan fod prisiau yn gysylltiedig â dyddiad cyson.

Mae'r bwllch rhwng y Dyddiad Prisio Rhagflaenol a'r ailbrisiad yn golygu y gall ffactorau sy'n effeithio ar brisiadau newid yn y cyfamser. Nid oes modd osgoi hyn, gan fod angen amser i brisiu pob hereditament ar sail gyson. Nid yw'n ymarferol gwneud addasiadau parhaus wrth baratoi ar gyfer ailbrisiad, gan y byddai hynny'n atal proses weithredu amserol, cyson a theg.

Fodd bynnag, rydym yn gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisiu i ystyried y potensial ar gyfer lleihau'r bwllch rhwng y Dyddiad Prisio Rhagflaenol a dyddiad yr ailbrisiad yn y dyfodol. Gall maint cymharol lai y sylfaen drethu yng Nghymru, o gymharu â Lloegr, helpu i alluogi hyn. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i weithredu bwllch byrrach rhwng y Dyddiad Prisio Rhagflaenol a'r ailbrisiad.

Y bwriad yw y caiff ailbrisiadau mwy rheolaidd, a'r mesurau sydd eu hangen i gyflawni hyn, eu rhoi ar waith yn gyntaf, er mwyn llywio ystyriaethau manwl pellach o gynigion i leihau'r cyfnod ers y Dyddiad Prisio Rhagflaenol. Byddai hyn yn newid mwy sylfaenol i'r system i'w ystyried yn y tymor hwy a byddai angen cynnal gwaith ymgynghori pellach.

### **Darparu gwybodaeth**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen gwella'r llif gwybodaeth er mwyn sicrhau y gall Asiantaeth y Swyddfa Brisiu gynnal ailbrisiadau mwy rheolaidd a gwella cywirdeb rhestrau ardrethu. Mae gwell gwybodaeth o fudd i dalwyr ardrethi ac

awdurdodau lleol drwy sicrhau bod biliau yn gywir a gwella tegwch yn y system. Gall gwelliannau hefyd leihau nifer yr apeliadau. Y newid mwyaf arwyddocaol o blith y newidiadau arfaethedig yw proses newydd ar gyfer darparu mathau penodol o wybodaeth, gan dalwyr ardrethi i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mewn ffordd amserol ac effeithlon, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth brisio yn gyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen i'r broses o ddarparu gwybodaeth gael ei hategu gan ddyletswydd gyfreithiol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i dalwyr ardrethi gyflenwi mathau penodol o wybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar ddyletswydd gyfatebol ar dalwyr ardrethi yn Lloegr, er mwyn cefnogi nodau polisi cymaradwy mewn perthynas ag ailbrisiadau mwy rheolaidd a chadw rhestrau ardrethu cywir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Byddai'r ddyletswydd yn cefnogi'r cynnig i symud i ailbrisiadau mwy rheolaidd, y llwyddwyd i'w gyflawni yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ddarparu ar gyfer talwyr ardrethi yng Nghymru ar yr un pryd ag y mae'n gwneud i Loegr.

Mae gwerth ardrethol hereditament yn cynrychioli amcangyfrif o'r rhent y gellid bod wedi'i godi ar ei gyfer. Er mwyn pennu gwerthoedd ardrethol, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ystyried tystiolaeth rhentu (cytundebau rhentu a phrydlesu fel arfer lle maent ar gael) sy'n gysylltiedig â'r hereditament ei hun lle bo hynny ar gael, yn ogystal â thystiolaeth o hereditamentau tebyg gerllaw. Er mwyn deall y dystiolaeth rhentu hon, mae angen i Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd fod yn ymwybodol o nodweddion ffisegol yr hereditamentau hynny, er mwyn gallu addasu'r rhenti i werth cyffredin fesul uned gymharu (e.e. fesul metr sgwâr) gan adlewyrchu nodweddion unigol pob un. Wedyn caiff y dystiolaeth hon ei defnyddio i brisio hereditamentau tebyg lle y bo'n briodol.

Mae rhwymedigaeth statudol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio i greu a chynnal rhestrau ardrethi annomestig, ac mae angen gwybodaeth arni ar fathau penodol o eiddo, rhenti a chyfrifon er mwyn cynnal prisiadau. Mae pwerau cyfyngedig yn bodoli ar hyn o bryd sy'n golygu y gellir rhoi hysbysiad gwybodaeth i dalwyr ardrethi er mwyn ceisio cael gwybodaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad gorfodol i dalwyr ardrethi hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisio am newidiadau i'r wybodaeth hon, hyd yn oed lle y gallai newid gwerth ardrethol hereditament. Yn ymarferol, gall hyn olygu na fydd deiliaid eiddo tebyg yn cael eu trethu'n gyfartal ac na chaiff y swm priodol o dreth ei gasglu.

Mae llawer o dalwyr ardrethi eisoes yn darparu gwybodaeth, pan fydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gofyn iddynt wneud hynny, er mwyn sicrhau bod prisiadau'n gywir. Bydd cyflwyno dyletswydd newydd i ddarparu gwybodaeth yn gwella tegwch i dalwyr ardrethi ac yn gwella amseroldeb a chyflawnder llifau gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, gan ei galluogi i greu a chynnal rhestrau cywirach fel rhan o gylch byrrach yn well. Bydd gwella cywirdeb rhestrau ardrethu yn atgyfnerthu'r system, gan sicrhau y caiff prisiadau eu hasesu gan ddefnyddio tystiolaeth well, fwy amserol, a chan leihau'r angen i dalwyr ardrethi herio prisiadau. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod talwyr ardrethi yn talu'r dreth gywir ar yr adeg gywir.

Mae'r cynnig hwn yn newid y ffordd y mae talwyr ardrethi yn ymgysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar hyn o bryd, a bydd angen ei weithredu mewn ffordd

sy'n syml, yn deg ac yn hawdd cydymffurfio â hi. Bydd angen i'r dull gweithredu ystyried anghenion talwyr ardrethi â phortffolios mawr, a'r rheini sy'n ymgysylltu â'r broses gan ddefnyddio asiant, yn ogystal â chwsmeriaid unigol ag eiddo unigol nad oes o bosibl ganddynt gymaint o brofiad o ymgysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a thalwyr ardrethi i roi'r trefniadau ymarferol ar waith i gefnogi'r ddyletswydd, gan gynnwys gwasanaeth ar-lein. Ni fyddwn yn gweithredu'r ddyletswydd yn ffurfiol hyd nes y byddwn yn fodlon y gellir disgwyl yn rhesymol i dalwyr ardrethi gydymffurfio â hi drwy'r gwasanaeth a ddarperir. Rhagwelir y caiff y ddyletswydd ei gweithredu yn ystod rhestr ardrethu 2023. Lle na fydd talwyr ardrethi yn gallu defnyddio gwasanaeth ar-lein, y bwriad yw y dylai'r talwr ardrethi allu cytuno ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar ddull amgen o ddarparu'r wybodaeth. Rydym yn bwriadu gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sicrhau bod mesurau addas ar waith i allu cydymffurfio â'r ddyletswydd drwy ddulliau amgen.

### **Dull gweithredu cyffredinol**

Bydd y ddyletswydd arfaethedig i ddarparu gwybodaeth yn seiliedig ar hunanddatganiadau gan dalwyr ardrethi. Bydd hyn yn golygu y caiff newidiadau eu gwneud yn agosach at ddigwyddiad hysbysadwy, gan leihau'r angen i ôl-ddyddio biliau a rhoi mwy o sicrwydd i dalwyr ardrethi o ran y dreth sy'n ddyledus. Caiff y mathau o newidiadau a fyddai'n cyfateb i ddigwyddiad hysbysadwy eu disgrifio'n fanylach yn ddiweddarach yn yr adran hon. Bydd y ddyletswydd yn cynnwys newidiadau i nodweddion deiliaid a hereditamentau, a darparu gwybodaeth fasnachol, gwybodaeth am renti a phrydlesau.

Bydd yn ofynnol i dalwyr ardrethi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Asiantaeth y Swyddfa Brisio bob tro y bydd amgylchiadau yn newid (e.e. pan fydd eu rhent yn newid, pan fyddant yn dod yn ddeiliad ar hereditament, neu pan fyddant yn newid noweddion ffisegol hereditament). Gan y bydd angen darparu gwybodaeth yn agos at y digwyddiad, ac y cynigir y dylid gwneud hynny o fewn 60 diwrnod calendr, mae'n fwy tebygol y bydd ar gael yn hawdd, gan leihau'r angen i dalwyr ardrethi ailedrych drwy gofnodion i gael gafael ar y wybodaeth.

Cydnabyddir bod sylfaen drethu ardrethi annomestig yn amrywiol. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio gan dalwyr ardrethi er mwyn cyflawni ei swyddogaeth brisio yn amrywio yn ôl y math o hereditamentau, eu maint a'r defnydd a wneir ohonynt. Caiff hyn ei ystyried wrth bennu gofynion gwasanaeth ar-lein:

- sy'n syml ac yn hawdd i bob talwr ardrethi ei defnyddio, gan greu'r baich ychwanegol lleiaf posibl;
- nad yw'n cosbi'r rheini a all wynebu anawsterau dilys wrth gydymffurfio, ond sy'n annog pob talwr ardrethi i gydymffurfio;
- sy'n caniatáu trugaredd o ran gwallau go iawn, ond sy'n cymryd camau gorfodi yn erbyn y rheini sy'n mynd ati'n fwriadol i wrthod cydymffurfio neu sy'n darparu gwybodaeth ffug gan wybod eu bod yn gwneud hynny;



- sy'n ymarferol ac yn gost-effeithiol i dalwyr ardrethi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Bydd un gyrchfan ar-lein unigol i dalwyr ardrethi ac asiantiaid ei defnyddio er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau newydd, a bydd talwyr ardrethi yn gallu cytuno ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar ddull arall ar gyfer darparu gwybodaeth os bydd angen. Bydd y system ar-lein yn ei gwneud hi mor syml â phosibl i gydymffurfio a bydd gwefan Llywodraeth Cymru, gwefannau awdurdodau lleol a gwefannau eraill y llywodraeth a ddefnyddir gan fusnesau a thalwyr ardrethi eraill yn cyfeirio'n helaeth ati. Gall pob talwr ardrethi gofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein. Gall talwyr ardrethi gadarnhau'r hereditamentau y mae'n ofynnol iddynt dalu ardrethi annomestig ar eu cyfer, adolygu a diwygio (os bydd angen) y wybodaeth ffeithiol a ddelir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a ddarparu gwybodaeth arall sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir manteisio i'r eithaf ar y gwasanaeth ar-lein er mwyn diwallu anghenion busnesau neu asiantiaid sy'n gyfrifol am sawl hereditament.

Caiff talwyr ardrethi eu hatgoffa, pan fyddant yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein, o'u rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd arfaethedig, dyddiadau perthnasol, a chanlyniadau methu â chydymffurfio. Bydd y gwasanaeth ar-lein i raddau yn dyblygu'r system y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ei defnyddio ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth ('Ffurflenni Dychwelyd Gwybodaeth') ac yn cynnig ffordd i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth arall sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd. Ar ôl cofrestru, dim ond mewngofnodi i'r gwasanaeth ar-lein eto y bydd angen i dalwyr ardrethi ei wneud er mwyn cymryd unrhyw gamau gofynnol.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhannu gwybodaeth am ddeiliaid a hereditamentau fel mater o drefn ag awdurdodau lleol er mwyn helpu i sicrhau biliau ardrethi annomestig cywir ac amserol. Felly, rhagwelir y bydd y trefniadau hyn o fudd i awdurdodau lleol ac y byddant yn meddu ar wybodaeth filio gywirach o ganlyniad.

## **Y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno dyletswydd gyfreithiol ar dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r broses o nodi a phrisio hereditament ardrethol, sy'n gydnaws ag amgylchiadau amrywiol pob hereditament a thalwr ardrethi. Mae mabwysiadu'r dull gweithredu hwn yn golygu y bydd disgwyl i dalwyr ardrethi gymryd camau syml i ddod o hyd i ba wybodaeth y mae angen iddynt ei darparu. Bydd yn ofynnol i dalwyr ardrethi ddefnyddio a chofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein a ddarperir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a dilyn y cyfarwyddiadau, mewn ffordd debyg i'r prosesau ar-lein ar gyfer rhwymedigaethau treth eraill. Bydd y gwasanaeth ar-lein yn helpu talwyr ardrethi i ddeall pa wybodaeth benodol y bydd ei hangen a phryd. Bydd y dull gweithredu hwn yn lleihau'r baich ar dalwyr ardrethi cymaint â phosibl drwy sicrhau mai dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'w hereditament a'u hamgylchiadau y mae angen iddynt ei darparu.

Bydd y ddyletswydd yn berthnasol i dalwr ardrethi hereditament, sef naill ai'r person â deiliadaeth ardrethol dros yr hereditament, neu'r person â hawliau meddiant os na fydd deiliad yn yr eiddo. Bydd hyn yn sicrhau mai'r lesddeiliad sydd wedi gadael yr eiddo, ond sy'n gyfrifol am y brydles o hyd, sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd, yn

hytrach na'r rhydd-ddeiliad. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallai'r ddyletswydd fod yn berthnasol hefyd i hereditamentau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr ardrethu eto, fel nad oes unrhyw fwlch gwybodaeth pan fydd hereditament yn ymuno â rhestr ardrethu am y tro cyntaf.

Ni fwriedir i'r ddyletswydd fod yn berthnasol i eiddo nad yw'n hereditament. Ni fwriedir i'r ddyletswydd fod yn berthnasol ychwaith i hereditamentau sy'n gwbl esempt rhag ardrethi annomestig na'r rheini sy'n gwbl ddomestig. Lle ceir deiliadaeth rhannol ddomestig a rhannol annomestig, bwriedir i'r ddyletswydd fod yn berthnasol i'r hereditament cyfan, er mwyn cynnig eglurder o ran y gwahaniaeth rhwng y ddwy ran. Ni ddisgwylir i dalwyr ardrethi fod yn ymwybodol o fanylion penodol am elfen ddomestig yr eiddo, ond yn hytrach disgwylir iddynt feddu ar wybodaeth gyffredinol am y rhaniad defnydd a gwybodaeth fanwl am yr elfennau annomestig. Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn sicrhau bod talwyr ardrethi yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau drwy gyfres o gwestiynau a chmau syml, gan ddefnyddio'r porth ar-lein.

Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r broses o nodi talwyr ardrethi a phrisio hereditamentau ar gyfer ardrethi annomestig y bydd angen ei darparu. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar dalwyr ardrethi ac yn sicrhau bod cysylltiad annatod rhwng diben darparu gwybodaeth a swyddogaeth brisio Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

At hynny, dim ond gwybodaeth sydd o fewn eu meddiant neu eu rheolaeth y bydd angen i dalwyr ardrethi ei darparu. Yn ogystal, dim ond os bydd y talwr ardrethi yn gwybod, neu y gallai fod disgwyl yn rhesymol iddo wybod, y byddai'r wybodaeth honno yn helpu swyddog prasio i ymgymryd â'i swyddogaethau, y bydd angen darparu gwybodaeth.

Nodir y mathau o wybodaeth y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt yn fanylach isod.

### **Gwybodaeth am yr hereditament**

Bydd angen i dalwyr ardrethi hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisio am unrhyw newidiadau i wybodaeth am yr hereditament y byddai ei hangen ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio i'w nodi neu i asesu ei werth ardrethol. Mae'r wybodaeth ofynnol yn debygol o gynnwys manylion am y talwr ardrethi (fel enw a manylion cyswllt), pa hereditament y mae wedi'i feddiannu a sut mae'n cael ei ddefnyddio. Ar gyfer hereditamentau heb ddeiliaid, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o wybodaeth ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio am yr hereditament ei hun, y defnydd bwriadedig ohono a sut y disgwylir iddo gael ei feddiannu. Byddai angen hefyd i dalwyr ardrethi roi gwybod i Asiantaeth y Swyddfa Brisio os gwneir rhai newidiadau ffisegol penodol i'r hereditament hefyd, er enghraifft, ar ôl adeiladu estyniad.

Bydd yr hyn sydd ei angen i nodi hereditament neu dalwr ardrethi yn amrywio rhwng hereditamentau. Er enghraifft, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn debygol o ofyn am wybodaeth gymharol fanwl am y trefniadau mewn swyddfa a rennir, cyn y gall nodi'r unedau unigol i'w hasesu. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen gwybodaeth fanwl ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio am natur y defnydd a wneir o gonsesiwn mewn canolfan siopa neu faes awyr ac amodau ei drwydded. Mae'n bosibl mai swm

cymharol fach o wybodaeth fydd ei hangen gan ddeiliad newydd uned ddiwydiannol safonol.

Bydd y wybodaeth sydd ei hangen i asesu gwerth ardrethol hereditament hefyd yn amrywio. Er enghraifft, mae angen gwybodaeth benodol iawn ar gyfer mast telathrebu neu hawliau hysbysebu. Byddai angen i Asiantaeth y Swyddfa Brisio wybod am ardaloedd swyddfa, ond gallai fod angen gwybodaeth wahanol arni am dafarn neu orsaf betrol. Gall fod angen i Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd wybod sut roedd gwahanol rannau'r hereditament yn cael eu defnyddio, gan y gall hyn effeithio ar y prisiad.

Dim ond i wybodaeth berthnasol am y rhan o'r hereditament sydd wedi newid y bydd y ddyletswydd arfaethedig yn berthnasol iddi. Er enghraifft, dim ond i'r rhan a newidiwyd o eiddo sydd wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar y byddai'n berthnasol, ond ar gyfer eiddo newydd, byddai'n berthnasol i'r holl fanylion perthnasol am yr eiddo hwnnw. Dros amser, bwriedir i'r gofyniad hwn ddarparu darlun mwy cyflawn i Asiantaeth y Swyddfa Brisio am wybodaeth berthnasol am bob hereditament er mwyn llywio prisiadau cywir.

### **Gwybodaeth am y denantiaeth a'r defnydd o'r hereditament**

Bydd angen i dalwyr ardrethi roi gwybod i Asiantaeth y Swyddfa Brisio am newidiadau i wybodaeth berthnasol am unrhyw brydles, trwydded neu gytundeb arall sy'n gysylltiedig â defnyddio'r hereditament. Bydd natur y wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen yr un peth â'r wybodaeth y gofynnir amdani fel rhan o broses casglu gwybodaeth bresennol Asiantaeth y Swyddfa Brisio ('Ffurflenni Dychwelyd Gwybodaeth'). Bydd y talwr ardrethi yn gallu nodi a diweddarau'r wybodaeth berthnasol sy'n benodol i'w hereditament drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gynnal prisiad cywir o'r hereditament, ond hefyd i asesu prisiadau hereditamentau tebyg yn yr ardal leol.

### **Gwybodaeth fasnach, cyfrifon a chostau**

Gall fod angen i nifer bach o dalwyr ardrethi, sy'n meddiannu rhai mathau arbenigol o hereditament, ddarparu gwybodaeth am eu masnach, eu cyfrifon a'u costau (lle y bo'n berthnasol i'w gwerth ardrethol). Gall y rhwymedigaeth hon fod yn berthnasol, er enghraifft, i rwydweithiau cyfleustodau, tafarnau, a gorsafoedd petrol. Ni fydd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o dalwyr ardrethi sy'n meddiannu siopau, swyddfeydd, a ffatrioedd.

Mae'r math o wybodaeth y bydd ei hangen ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes wedi'i darparu drwy'r Ffurflenni Dychwelyd Gwybodaeth. Mae'r talwyr ardrethi hyn eisoes yn gyfarwydd â darparu'r wybodaeth. Yn wahanol i rannau eraill o'r ddyletswydd, ni chaiff yr agwedd hon ei sbarduno gan newid yn y wybodaeth berthnasol, ond bydd yn rhaid ei darparu bob blwyddyn am gyfnod o 12 mis. Bydd talwyr ardrethi yn gallu darparu'r wybodaeth hon wrth gwblhau eu cadarnhad blynyddol (gweler isod).

## **Cadarnhad blynyddol**

Bydd angen i dalwyr ardrethi ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein (neu ddull arall y cytunir arno ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio) bob blwyddyn er mwyn cadarnhau eu bod wedi darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ganddynt, neu nad oedd yn ofynnol iddynt ddarparu unrhyw wybodaeth hysbysadwy, a bod y dyddiad a ddelir ar gyfer eu hereditament yn gywir o hyd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i dalwyr ardrethi sydd wedi methu â hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisio am newidiadau yn ystod y flwyddyn gywiro eu gwybodaeth. I'r rhan fwyaf o dalwyr ardrethi yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, lle na fu unrhyw newidiadau hysbysadwy, dim ond ychydig funudau y dylai'r broses hon ei gymryd. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r cadarnhad blynyddol a gynigir yw 60 diwrnod calendr ar ôl 30 Ebrill bob blwyddyn.

Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cymru [ymgyngoriad](#) ar newidiadau i weithredu system 'gwirio, herio, apelio' i Gymru, o 1 Ebrill 2023. Pan gaiff y ddyletswydd arfaethedig a'r broses ar gyfer y cadarnhad blynyddol eu rhoi ar waith, byddant yn disodli'r angen i 'wirio' cyn y gall talwr ardrethi 'herio' gwerth ardrethol ei hereditament. Yn hytrach, dim ond ar ôl cwblhau ei gadarnhad blynyddol y bydd talwr ardrethi yn gallu 'herio'.

## **Cyfundrefn gydymffurfio ar gyfer darparu gwybodaeth**

Caiff y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ei hategu gan gyfundrefn gydymffurfio gymesur, er mwyn helpu i sicrhau bod talwyr ardrethi yn cyflawni eu rhwymedigaethau. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o dalwyr ardrethi yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio, er mwyn sicrhau eu bod yn talu'r dreth gywir yn seiliedig ar brisiadau cywir, a bydd y gwasanaeth ar-lein a ddarperir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn sicrhau bod y broses hon mor syml â phosibl i bob talwr ardrethi.

Er mwyn mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyhoeddi cosbau sifil am fethu â darparu'r wybodaeth ofynnol, pan na fydd mesurau eraill i annog cydymffurfiaeth yn effeithiol. Bwriedir i'r gyfundrefn gosbau gynrig rhywfaint o gyfle i ddangos trugaredd, lle y bo'n briodol, ond gan weithredu hefyd fel atalydd i'r rheini nad ydynt yn cydymffurfio'n fwriadol. Bydd hyn yn sicrhau bod y weithdrefn brisio ar gyfer ardrethi annomestig yn fwy cydnaws â'r broses o weithredu trethi eraill, sy'n ddarostyngedig i gyfundrefnau cydymffurfio tebyg.

Mae'n debygol na chaiff y gyfundrefn gydymffurfio ei dechrau ar yr un pryd â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth. Gan weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a thalwyr ardrethi, byddwn yn sicrhau y gellir disgwyl yn rhesymol i dalwyr ardrethi ddeall a chydymffurfio â'u dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth, cyn dechrau'r gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig. Mae'n bosibl y bydd y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth yn dechrau yn ystod rhestr ardrethu 2023, ond nid yw'n debygol y caiff y gyfundrefn gosbau ei dechrau cyn y rhestr ardrethu ganlynol, y disgwylir iddi gael ei chreu ar 1 Ebrill 2026.

Nodir y paramedrau arfaethedig ar gyfer gweithredu'r gyfundrefn gydymffurfio isod.

## **Dyddiadau cau ar gyfer dychwelyd gwybodaeth**

Lle y bydd rhwymedigaeth wedi'i sbarduno o dan y ddyletswydd (e.e. lle y bu newid i eiddo), bydd angen i dalwyr ardrethi fewngofnodi i wasanaeth ar-lein Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ddarparu eu gwybodaeth, o fewn 60 diwrnod calendr.

Ar gyfer gwybodaeth rhentu, caiff y gofyniad i ddarparu gwybodaeth ei sbarduno pan fydd cytundeb ffurfiol (neu gytundeb diwygiedig) yn dod yn gyfreithiol rwymol. Yn achos cytundeb anffurfiol, y dyddiad y bydd y rhent (neu unrhyw rent diwygiedig dilynol) yn daladwy fydd hynny. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- llofnodi prydles newydd;
- llofnodi cytundeb tenantiaeth ffurfiol, gan gynnwys eiddo wedi'i is-osod;
- y dyddiad y caiff rhent ei dalu gyntaf o dan gytundeb tenantiaeth anffurfiol, gan gynnwys eiddo wedi'i is-osod;
- os caiff manylion tenantiaeth anffurfiol eu newid drwy lofnodi cytundeb ffurfiol;
- llofnodi memorandwm adolygu rhent;
- llofnodi cytundeb adnewyddu prydles;
- newid mewn rhent;
- newid neu ychwanegu at gytundeb tenantiaeth.

Dylai gwybodaeth derbynebaw, sy'n ofynnol ar gyfer hereditamentau a gaiff eu prasio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ran trosiant, gyfeirio at y cyfnod cyfrifyddu blynyddol (blwyddyn ariannol) ar gyfer y busnes a dylid ei darparu o fewn 60 diwrnod calendr o 30 Ebrill bob blwyddyn.

Ar gyfer nodweddion a deiliadaeth hereditament, caiff y gofyniad i ddarparu gwybodaeth ei sbarduno gan newidiadau fel:

- deiliadaeth newydd neu ddeiliadaeth sydd wedi dod i ben;
- cwblhau estyniad neu newidiadau ffisegol sylweddol eraill; neu
- newid mewn defnydd.

## **Cosbau**

Cynigir cyfundrefn cosbau er mwyn annog cydymffurfiaeth. I dalwyr ardrethi nad ydynt yn darparu eu gwybodaeth mewn ffordd amserol neu gywir, bydd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio y disgresiwn i gyflwyno cosbau. Pan fydd unigolyn sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn mynd ati'n fwriadol neu'n fyrbwyll i wneud datganiad ffug er mwyn ceisio ymddangos fel petai'n cydymffurfio, y bwriad yw yr ystyrir bod yr unigolyn hwnnw wedi cyflawni trosedd. Ni ragwelir y caiff cosbau eu cyflwyno mewn achosion lle y bydd talwr ardrethi yn methu â chydymffurfio â'i rhwymedigaeth o ran cadarnhad blynyddol. Byddai methu â chydymffurfio yn arwain at weithgarwch cydymffurfio pellach gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a, lle y bo'n berthnasol, byddai'n arwain at gosbau dilynol o dan y rhwymedigaethau eraill.

Os na cheir unrhyw dystiolaeth o gydymffurfio ar ôl y 60 diwrnod calendr cychwynnol o'r digwyddiad hysbysadwy, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gallu cyflwyno hysbysiad cosb. Bydd talwyr ardrethi sy'n methu â darparu gwybodaeth o fewn 60 diwrnod yn cael nodyn atgoffa, rhybudd a rhybudd terfynol cyn cyflwyno cosb. Gall

Asiantaeth y Swyddfa Brisió gyflwyno cosb ddyddiol bellach os na cheir cydymffurfiaeth o hyd ar ôl 30 diwrnod calendr ar ôl cyflwyno'r hysbysiad cosb (gweler rhagor o fanylion isod). Gall talwyr ardrethi fod yn atebol am gosb am bob achos o fethu â hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisió am wybodaeth berthnasol.

Y bwriad yw y gall Asiantaeth y Swyddfa Brisió gyflwyno cosbau am fethu â hysbysu ar unrhyw adeg ar ôl nodi'r achos o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys methu â chydymffurfio yn ystod rhestr ardrethu flaenorol a oedd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd arfaethedig. Lle bydd cosb yn seiliedig ar y gwerth ardrethol, caiff y gwerth ardrethol a ddefnyddir fydd yr uchaf o'r gwerth ardrethol cyn derbyn y wybodaeth berthnasol a'r gwerth ardrethol yn ôl derbyn y wybodaeth berthnasol.

### Tariffau ar gyfer cosbau

Mae'r system ardrethi annomestig eisoes yn cynnwys cosbau (e.e. mewn perthynas â methu â dychwelyd gwybodaeth rhentu y gofynnwyd amdani gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió). Cedwir y darpariaethau presennol mewn perthynas â chosbau ochr yn ochr â'r cosbau arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth. Mae'r **uchafswm** lefelau cosb arfaethedig bwriadedig fel a ganlyn:

- Yr uchafswm cosb am fethu â chydymffurfio â gofyniad i hysbysu am unrhyw reswm (gan gynnwys o ganlyniad i wneud datganiad ffug) fydd y mwyaf o 2% o werth ardrethol yr hereditament (naill ai beth fyddai'r gwerth ardrethol wedi bod yn derbyn y wybodaeth berthnasol neu, os yn uwch, y gwerth ardrethol a adlewyrchir yn y rhestrau cyn derbyn y wybodaeth berthnasol) neu £900.
- Os caiff datganiad ffug ei wneud yn fwriadol neu'n fyrbwyll, gallai'r talwr ardrethi fod yn atebol am gosb droseddol. Byddai'r talwr ardrethi yn cyflawni trosedd a byddai'n atebol ar gollfarn ddiannod i ddedfryd o garchar am gyfnod hyd at 3 mis neu i ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol neu'r ddau.
- Gall swyddog prisio, os bydd yn fodlon y tu hwnt i amheuaeth resymol fod y talwr ardrethi wedi cyflawni trosedd o ganlyniad i wneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll, benderfynu mai cosb sifil sy'n addas, yn hytrach na chosb droseddol. Os felly, byddai'r uchafswm cosb yn swm o 3% o'r gwerth ardrethol (naill ai beth fyddai'r gwerth ardrethol wedi bod yn derbyn y wybodaeth berthnasol neu, os yn uwch, y gwerth ardrethol a adlewyrchir yn y rhestrau cyn derbyn y wybodaeth berthnasol) a £500.

Lle bo cosb sifil yn berthnasol i unigolyn a'i fod yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu o fewn 30 diwrnod o'r dyddiad y caiff yr hysbysiad cosb ei gyflwyno, byddai uchafswm cosb pellach o £60 yn berthnasol i'r talwr ardrethi am bob diwrnod y bydd y methiant yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd hyblygrwydd a disgrisiwn y system yn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisió weithredu'r gweithgareddau cydymffurfio hyn yn deg a chan roi ystyriaeth ddyledus i amgylchiadau unigol. Bydd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió ddisgrisiwn i liniaru neu ddileu unrhyw rai o'r cosbau uchod. Bydd talwyr ardrethi hefyd yn gallu gofyn am estyniad i'r terfynau amser os bydd angen mwy o amser arnynt i gyflawni eu rhwymedigaethau. Rhagwelir y bydd estyniadau ar gael o dan amgylchiadau cyfyngedig, lle y bydd rheswm cymhellol, fel argyfwng

meddygol neu brofedigaeth, ond bydd hyn yn ôl disgrisiwn Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Mae'r lefelau cosb hyn yn gymesur i gosbau tebyg yn rhannau eraill o'r system dreth. Er enghraifft, mae rhai o gosbau CThEM yn seiliedig ar ganran o'r potensial ar gyfer refeniw coll ac yn dibynnu ar y math o ymddygiad a ddangosir gan y talwr trethi. Bydd y strwythur arfaethedig yn arwain at gosbau mwy am sefyllfaoedd lle mae achosion o ddiffyg cydymffurfio yn arwain at dan-asesu'r gwerth ardrethol yn sylweddol.

### **Adolygiadau ac Apeliadau**

Bydd talwyr ardrethi yn cael y cyfle i ofyn am adolygiad o benderfyniadau sy'n ymwneud â chosbau, yn seiliedig ar gyfres o feini prawf lliniaru (yn debyg i dull gweithredu CThEM mewn perthynas ag 'esgus rhesymol'). Os byddant am wneud hynny, disgwylir iddynt wneud cais o fewn 30 diwrnod calendr o gyhoeddi hysbysiad cosb. Er mwyn dechrau'r adolygiad, bydd y talwr ardrethi yn cwblhau ffurflen ar-lein syml. Caiff yr adolygiad ei hun ei gynnal gan un o weithwyr achos annibynnol Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Caiff cosbau eu hatal am gyfnod dros dro pan fydd adolygiad yn cael ei gynnal, a bydd yn rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisio gwblhau'r adolygiad o fewn 45 diwrnod calendr.

Bydd y talwr ardrethi yn gallu cyflwyno apêl i Dribiwnlys Prisio Cymru os na chaiff adolygiad ei gwblhau o fewn 45 diwrnod calendr neu o fewn 30 diwrnod calendr o benderfyniad yr adolygiad. Bydd Tribiwnlys Prisio Cymru yn gallu gorchymyn i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ganslo'r gosb dan sylw, yn rhannol neu'n llwyr, os caiff yr apêl ei chadarnhau.

Bydd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ddisgrisiwn i ganslo neu leihau unrhyw gosb a osodwyd am fethu â chydymffurfio neu am ddarparu gwybodaeth ffug, p'un a fydd apêl wedi'i chyflwyno neu a fydd tribiwnlys wedi gwneud dyfarniad ai peidio.

### **Cwestiynau o ran galluogi ailbrisiadau mwy rheolaidd**

Wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, dylech gynnwys rhesymau dros eich atebion ac unrhyw dystiolaeth ategol.

#### **Cwestiwn 1**

A ydych yn cytuno y dylid cynnal ailbrisiadau o leiaf unwaith bob tair blynedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau tegwch yn y system drwy wneud yn siŵr y caiff prisiadau eu diweddarau'n amlach i adlewyrchu amodau economaidd newidiol? Beth yw eich rhesymau dros eich ateb?

#### **Cwestiwn 2**

A ydych o'r farn y dylid cynnal ailbrisiadau yn amlach na bob tair blynedd? Os felly, pa mor aml fydddech chi'n ei awgrymu?

#### **Cwestiwn 3**

A ydych o'r farn y dylai'r bwlch rhwng y dyddiad prisio rhagflaenol a dyddiad cynnal yr ailbrisiad fod yn llai na dwy flynedd, os yn bosibl, yn y dyfodol?

**Cwestiwn 4**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion i greu dyletswydd ar dalwyr ardrethi i roi gwybod i Asiantaeth y Swyddfa Brisio os bydd gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r hereditament yn newid, a'r ddyletswydd newydd i roi cadarnhad blynyddol, er mwyn cefnogi ailbrisiadau mwy rheolaidd a helpu i gadw rhestrau ardrethu cywir?

**Cwestiwn 5**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion ar gyfer cyfundrefn gydymffurfio gymesur i gefnogi'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth? Yn arbennig, a ydych o'r farn bod y cosbau arfaethedig yn deg ac yn gymesur?

**Cwestiwn 6**

A yw'r amserlenni arfaethedig yn rhoi digon o amser i dalwyr ardrethi gyflawni eu rhwymedigaethau? Os nad ydynt, o dan ba amgylchiadau na fyddai hyn yn bosibl?




# Darparu rhyddhadau ac esemptiadau

Mae'r adran hon yn ceisio barn ar p'un a ddylai Llywodraeth Cymru adolygu'r amrywiaeth o ryddhadau ardrethi annomestig y mae'n eu darparu, ac ar rai cynigion penodol ar gyfer gwelliannau cychwynol.

## Adolygu rhyddhadau

Mae'r tirlun rhyddhadau ardrethi annomestig wedi cynyddu o ran maint a chymhlethdod dros amser. Caiff rhyddhadau eu darparu i fusnesau, sefydliadau di-elw ac elusennau cymwys, ond nid i gyrff yn y sector cyhoeddus. Mae mwy na hanner yr hereditamentau (unedau eiddo ag asesiad ardrethu) yn y sylfaen drethu yn cae rhyddhad llawn neu rannol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £240 miliwn bob blwyddyn ar amrywiaeth eang o gynlluniau rhyddhad parhaol (Ffigur 4). Yn ogystal, mae rhyddhad wedi'i dargedu'n fwy penodol ac sy'n cynnwys cyfyngiadau amser i'r sector manwerthu, y sector hamdden a'r sector lletygarwch wedi chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi busnesau drwy gydol pandemig y coronafeirws, ac mae'n darparu £116 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Ffigur 4: Gwariant Llywodraeth Cymru ar ryddhadau ardrethi annomestig**



Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl gynlluniau rhyddhad ardrethi er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben a'u bod yn cynnig cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bwriedir i'r adolygiad ystyried yr amrywiaeth o ryddhadau, lefel y cymorth, sut y caiff rhyddhadau eu targedu ac am ba hyd y maent yn para. Gallai canlyniad yr adolygiad hwn a blaenoriaethau polisi presennol Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau polisi yn y dyfodol arwain at gynigion i ychwanegu, dileu neu ddiwygio rhyddhadau ardrethi annomestig.

Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynlluniau rhyddhadau presennol wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac mae rhywfaint o hyblygrwydd ar gael i Lywodraeth Cymru ddiffinio rhai paramedrau penodol mewn rheoliadau. Fel arfer, bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer newidiadau mwy sylweddol, fel atgyfnerthu neu ddiwygio cwmpas rhyddhadau sy'n bodoli eisoes, dileu rhyddhadau, neu greu rhai newydd. Mae cyfleoedd i wneud deddfwriaeth sylfaenol yn llawer mwy cyfyngedig na chyfleoedd i wneud rheoliadau, sy'n cyfyngu'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system ardrethi annomestig yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau polisi presennol neu newydd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys uchelgeisiau ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach.

Rydym am sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn addas ar gyfer y dyfodol, drwy alluogi dull mwy hyblyg ac ymatebol wrth ddylunio a gweithredu rhyddhadau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dileu'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i greu, diwygio neu ddileu cynlluniau rhyddhadau ardrethi annomestig parhaol. Yn lle hynny, cynigir y dylid gallu gwneud hynny gan ddefnyddio rheoliadau. Cynigir y dylai'r gallu i wneud hyn fod yn berthnasol hefyd i greu rhyddhadau newydd, a all fod yn seiliedig ar wahanol baramedrau i'r rheini sydd wedi'u nodi eisoes mewn deddfwriaeth sylfaenol. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn briodol o ganlyniad i'r adolygiad o ryddhadau ac i reoli'r tirlun rhyddhadau cyffredinol yn unol â'n hamcanion polisi ehangach yn barhaus.

### **Darparu esemptiadau**

Gall Llywodraeth Cymru ragnodi hereditamentau sy'n esempt rhag ardrethi annomestig a graddau'r esemptiadau mewn rheoliadau, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol. Prin iawn yw'r hyblygrwydd ymarferol y mae'r cyfyngiadau hyn yn ei ddarparu o ran esemptiadau, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol bod yr esemptiad dan sylw eisoes yn weithredol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid dileu'r cyfyngiadau, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â chwmpas yr esemptiadau y gellir eu darparu mewn rheoliadau, er mwyn gallu gwneud newidiadau mewn ffordd amserol ac yn unol ag amcanion polisi ehangach.

### **Symleiddio rhyddhad dewisol**

Er bod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn eang ar hyn o bryd i roi rhyddhad ardrethi annomestig, mae eu pwerau wedi'u cyfyngu i ryw raddau. Cafodd rhai o'r rheolau a ddargedwir eu dylunio pan oedd ardrethi annomestig yn fwy canolog ac maent yn rhy gyfyngol, yng nghyd-destun yr hyblygrwydd lleol cynyddol sydd bellach yn bodoli mewn perthynas â rhyddhad dewisol. Gall awdurdodau lleol lunio cynlluniau rhyddhad ar gyfer unrhyw dalwyr ardrethi, ac eithrio nhw eu hunain, ar yr amod eu bod yn fodlon bod penderfyniad i roi rhyddhad yn rhesymol, gan ystyried buddiannau eu talwyr treth lleol.

Mae'r paramedrau y gall awdurdodau lleol ddyfarnu neu newid pob cynllun rhyddhad dewisol (h.y. anorfodol) o'u mewn, gan gynnwys y rheini a sefydlwyd i roi cynlluniau a ariennir yn ganolog ar waith, wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Mae cyfyngiad penodol yn bodoli sy'n atal awdurdodau lleol rhag dyfarnu neu newid penderfyniadau rhyddhad dewisol fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae

Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid dileu'r cyfyngiad hwn, er mwyn rhoi disgrisiwn llawn i awdurdodau lleol ddefnyddio rhyddhadau mewn ffordd ôl-weithredol ac amrywio cynlluniau neu filiau. Ni fyddai'r newid hwn yn berthnasol i unrhyw flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y caiff y gyfraith ei newid o'i mewn.

### **Rhyddhad eiddo gwag lle y rhagwelir y bydd y defnydd nesaf yn ymwneud â dibenion elusennol**

Rydym wedi bod yn datblygu ac yn gweithredu cyfres eang o fesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi, yn dilyn [ymgyngoriad](#) yn 2018, a chaiff y rhain eu hamlinellu'n ddiweddarach yn yr ymgynghoriad hwn.

Un o'r penderfyniadau a wnaed gennym 2018 oedd newid y gallu i elusen neu ymddiriedolwr elusen sy'n berchen ar hereditament heb ddeiliad neu'n prydlesu hereditament o'r fath wneud cais am gyfradd sero i'r hereditament am gyfnod amhenodol (ystyr hynny yw y caiff hereditament ei drin fel eiddo â gwerth ardrethol o ddim ac felly caiff ryddhad llawn rhag talu ardrethi). Ar hyn o bryd, caiff hyn ei ganiatáu mewn deddfwriaeth os bydd talwyr ardrethi'n honni, pan gaiff ei ddefnyddio nesaf, y caiff hereditament ei ddefnyddio'n llwyr neu'n bennaf at ddiben elusennol. Os na chaiff yr hereditament ei ddefnyddio at ddiben elusennol yn y dyfodol, mae'r trefniadau hyn eisoes wedi bod o fudd i'r perchennog neu'r lesddeiliad pan oedd yn wag.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu ei phenderfyniad yn ystod y cyfle deddfwriaethol nesaf i ddileu cyfradd sero ar gyfer hereditamentau heb ddeiliad yr ymddengys y byddant, pan gânt eu defnyddio nesaf, yn cael eu defnyddio'n llwyr neu'n bennaf at ddiben elusennol. Er mwyn galluogi'r system i barhau i gefnogi'r lleiafrif o achosion gwirioneddol sy'n gwneud defnydd cyfreithlon o'r gyfradd sero, bydd gan awdurdodau lleol y disgrisiwn i ddefnyddio'r gyfradd sero ar yr un sail. Gwnaethom weithio gydag awdurdodau lleol yn y gorffennol i wneud y penderfyniad hwn a byddwn yn cydgynhyrchu'r gofynion gweithredol angenrheidiol.

Mae'r mater hwn yn fater ar wahân i ddarparu rhyddhad gorfodol rhag ardrethi annomestig pan fydd eiddo wedi'i feddiannu gan elusen. Nid oes unrhyw gynigion i newid y trefniadau presennol ar gyfer rhyddhad elusennol i eiddo wedi'i feddiannu. Bydd ystyriaethau am briodolrwydd rhyddhad elusennol yn gyffredinol wrth gyflawni ei nodau yn rhan o'r adolygiad ehangach o ryddhadau ardrethi annomestig.

### **Cwestiynau am ddarparu rhyddhadau ac esemptiadau**

Wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, dylech gynnwys rhesymau dros eich atebion ac unrhyw dystiolaeth ategol.

#### **Cwestiwn 7**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynnig i gynnal adolygiad o gynlluniau rhyddhad ac unrhyw farn o ran sut y dylid ystyried eu heffeithiolrwydd? Pa ffactorau y dylai adolygiad eu hystyried?

**Cwestiwn 8**

A oes gennych unrhyw farn ar ein cynigion i alluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio, dileu a chreu rhyddhadau statudol newydd drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?

**Cwestiwn 9**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynnig i Lywodraeth Cymru gael mwy o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer esemptiadau drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?

**Cwestiwn 10**

Beth yw eich barn ar y cynnig i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddyfarnu rhyddhad dewisol ôl-weithredol?

# Amrywio'r lluosydd

Mae'r adran hon yn ceisio barn ar p'un a ddylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud newidiadau i'r lluosydd ardrethi annomestig yn y dyfodol, er mwyn bod yn gydnaws ag amcanion polisi.

## Pennu'r lluosydd

Caiff atebolrwydd am ardrethi annomestig ei bennu drwy gyfuno gwerth ardrethol hereditament (uned o eiddo ag asesiad ardrethu) â'r lluosydd, a gaiff ei bennu bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lluosydd yn gweithredu fel elfen allweddol wrth bennu atebolrwydd talwyr ardrethi, gan ei fod yn berthnasol i'r sylfaen drethu gyfan. Mae'n ddarostyngedig i chwyddiant blynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, oni fydd Llywodraeth Cymru yn ei bennu ar lefel arall drwy ragnodi ffigur amgen i'w ddefnyddio yn lle'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Ar hyn o bryd, mae lluosydd unigol yn berthnasol i bob hereditament yng Nghymru ac nid oes unrhyw fecanwaith y gall Llywodraeth Cymru ei defnyddio i bennu gwahanol luosyddion ar gyfer gwahanol rannau o'r sylfaen drethu. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i bennu atodiad at y lluosydd fel mecanwaith ariannu. Defnyddiwyd y pwerau hyn yn Llundain mewn perthynas â chyllid Crossrail, ond ni chawsant eu defnyddio erioed gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mewn rhannau eraill o'r DU, ceir lluosyddion haenog, lle mae hereditamentau â gwerth ardrethol islaw lefel ragnodedig yn destun lluosydd is na'r rheini uwchlaw'r trothwy. Ar hyn o bryd, mae lluosyddion haenog yn gweithredu mewn ffordd niwtral o ran refeniw, gyda lluosydd is ar gyfer rhai hereditamentau yn cael ei ategu gan gyfradd uwch ar gyfer rhai eraill.

## **Opsiynau ar gyfer gwahanol luosyddion**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid newid deddfwriaeth er mwyn galluogi i wahanol luosyddion gael eu pennu ar gyfer gwahanol rannau o'r sylfaen drethu, ar sail y paramedrau a nodir isod. Cynigir y byddai unrhyw luosyddion amgen a ddiffinnir ar sail y paramedrau hyn yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau.

- Gwerth ardrethol hereditament. Yn Lloegr a'r Alban, mae busnesau bach (fel y'u diffinnir ar sail eu gwerth ardrethol) yn destun lluosydd is. Ar hyn o bryd, er enghraifft, ni all Llywodraeth Cymru gefnogi busnesau bach yn y fath fodd.
- Defnyddio hereditament. Yng nghyd-destun uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach, mae'n bosibl y byddai'n ddymunol pennu lluosydd ar gyfer sectorau penodol, er mwyn cefnogi amcanion polisi ehangach. Er enghraifft, gallai 'lluosydd sector-benodol' is fod yn un ffordd bosibl o ddefnyddio'r system ardrethi annomestig i gefnogi buddsoddiad mewn maes penodol, heb fod angen cynllun rhyddhad wedi'i dargedu.
- Lleoliad daearyddol hereditament. Gall fod yn ddymunol i Lywodraeth Cymru bennu gwahanol luosydd ar gyfer lleoliadau daearyddol penodol, yn gysylltiedig ag amcanion ehangach y llywodraeth.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau penodol i luosyddion ar hyn o bryd. Bwriedir i'r pwerau roi mwy o hyblygrwydd i addasu'r ardrethi annomestig o ran anghenion yn y dyfodol. Byddai'r gallu i Lywodraeth Cymru amrywio'r lluosydd yn seiliedig ar werth ardrethol hereditament, y defnydd ohono a'i leoliad daearyddol yn ei gwneud hi'n haws sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn gydnaws ag amcanion polisi ehangach.

### **Cwestiynau am amrywio'r lluosydd**

Wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, dylech gynnwys rhesymau dros eich atebion ac unrhyw dystiolaeth ategol.

#### **Cwestiwn 11**

Beth yw eich barn ar gynigion i roi'r gallu i Lywodraeth Cymru amrywio'r lluosydd ar gyfer eiddo a ddefnyddir at ddibenion gwahanol, eiddo â gwerth ardrethol gwahanol ac eiddo mewn lleoliadau daearyddol gwahanol, er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?

#### **Cwestiwn 12**

A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer paramedrau y gellid eu hystyried wrth amrywio'r lluosydd?

# Gwelliannau i'r broses o weinyddu prisiadau a rhestrau ardrethu

Mae'r adran hon yn ceisio barn ar amrywiaeth o newidiadau penodol a gynigir gan Lywodraeth Cymru i wella agweddau ar y brose o brisio a gweinyddu ardrethi annomestig er mwyn sicrhau bod y system yn fwy effeithlon i'r llywodraeth ac i dalwyr ardrethi.

## Newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau

Bydd ailbrisiadau ardrethi annomestig mwy rheolaidd yn sicrhau bod y gwerthoedd ardrethol ar gyfer pob hereditament yn fwy cyfredol a'u bod yn adlewyrchu newidiadau yn yr economi ac yn y farchnad eiddo. Caiff gwerthoedd ardrethol eu diweddarau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n asiantaeth annibynnol, i adlewyrchu newidiadau mewn ffactorau economaidd, amodau'r farchnad neu lefel gyffredinol rhenti gan ddefnyddio'r ailbrisiadau cyffredinol hyn o'r sylfaen drethu gyfan. Rhwng ailbrisiadau, dim ond i adlewyrchu 'newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau' (e.e. newidiadau ffisegol i'r eiddo neu'r ardal leol) y gellir newid gwerthoedd ardrethol. Ni ddylai cwmpas newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau fod mor eang fel ei fod yn cynnwys newidiadau mewn ffactorau economaidd, amodau'r farchnad neu lefel gyffredinol rhenti, gan y byddai hynny'n gyfystyr ag ailbrisiadau amser real, byddai'n anymarferol a byddai'n tanseilio rôl yr ailbrisiadau rheolaidd.

Yn ystod pandemig y coronafeirws, cyflwynwyd nifer mawr o apeliadau, yn nodi bod y cyfyngiadau a roddwyd ar waith gan lywodraethau ledled y DU wedi achosi newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau mewn perthynas ag eiddo: roedd talwyr ardrethi o'r farn y dylai hyn leihau eu gwerth ardrethol. Roedd hyn yn groes i'r bwriad o ddarparu ar gyfer newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau a gwnaed deddfwriaeth i sicrhau na ddylai effaith pandemig y coronafeirws ar werthoedd rhentu arwain at newidiadau i werthoedd ardrethol y tu allan i ailbrisiad. Mae'n bosibl y bydd digwyddiadau eraill yn y dyfodol rhwng ailbrisiadau a fydd, yn ôl eu natur, yn ymwneud ag amodau economaidd neu amodau'r farchnad, neu lefel gyffredinol rhenti.

Er bod camau wedi'u cymryd i ymdrin â materion sy'n deillio o bandemig y coronafeirws, mae angen newidiadau pellach i sicrhau bod y gyfraith wedi'i chalibradu mewn ffordd glir a theg, a bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol o'r hyn y dylid ei adlewyrchu yn ystod ailbrisiadau a beth y dylid ei adlewyrchu fel newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau. Ni fyddai cymhwyso ffiniau cyfreithiol at gwmpas newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau yn golygu na fydd gwerthoedd ardrethol byth yn newid i adlewyrchu digwyddiadau mawr. Fodd bynnag, byddai'n sicrhau y caiff eu heffeithiau eu hadlewyrchu drwy'r sylfaen drethu gyfan ar yr un pryd, yn ystod ailbrisiadau. Bydd hyn yn adfer cwmpas newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau i'r graddau y'u bwriadwyd yn wreiddiol ac yn sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â digwyddiadau eraill mawr nas rhagwelwyd.

## **Materion na ddylid eu hystyried rhwng ailbrisiadau**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid deddfu i egluro pa faterion na ddylent arwain at newid gwerthoedd ardrethol rhwng ailbrisiadau, sef:

- Newidiadau i ddeddfwriaeth. Y bwriad yw y bydd gwerthoedd ardrethol yn seiliedig ar y tirlun deddfwriaethol ar y dyddiad prisio rhagflaenol ac na fydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn gyfystyr â newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau.
- Darpariaethau eraill a wneir o dan ddeddfwriaeth ac a weithredir gan ddeddfwriaeth, fel cyfundrefnau trwyddedu. Caiff y rhain eu rhedeg gan gyrrff cyhoeddus â phwerau o dan ddeddfwriaeth i weinyddu trwyddedau a chreu, cymhwysu a gorfodi rheolau i lywodraethu'r broses o weithredu rhai diwydiannau a sectorau penodol. Fel deddfwriaeth, mae cyfundrefnau trwyddedu yn cyfrannu at y cyd-destun economaidd ar gyfer meddiannu a defnyddio eiddo penodol. Ni fwriedir i newidiadau i'r cyfundrefnau hyn fod yn gyfystyr â newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau.
- Cyngor neu arweiniad a roddir gan awdurdod cyhoeddus. Weithiau, bydd cyrff cyhoeddus yn gweithredu eu cyfrifoldebau drwy gyngor neu arweiniad ac, fel deddfwriaeth neu gyfundrefnau trwyddedu, mae hyn yn cyfrannu at y cyd-destun economaidd ar gyfer defnyddio'r eiddo. Ni fwriedir i gyngor neu arweiniad a roddir gan awdurdod cyhoeddus ynghylch sut y dylid defnyddio eiddo fod yn gyfystyr â newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau.

Cydnabyddir bod amgylchiadau lle y gall newidiadau rheoliadol arwain at ganlyniadau eilaidd a, phan fydd hyn yn gyfystyr â newidiadau ffisegol, y dylent ddod o dan gwmpas newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau. Gall talwyr ardrethi apelio yn erbyn eu gwerth ardrethol o hyd ar sail y materion canlynol, hyd yn oed pan fyddant wedi cael eu hachosi gan newid mewn deddfwriaeth, trwyddedu neu arweiniad:

- newid ffisegol i'r eiddo;
- newid ffisegol i'r ardal leol;
- os bydd yr eiddo yn ymuno â'r categorïau 'domestig' neu 'esempt' neu'n gadael y categorïau hynny; neu
- os bydd yr eiddo yn dod yn hereditament neu os na fydd yn hereditament mwyach.

Byddai'r cynigion hyn yn egluro cwmpas newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau, gan sicrhau ei fod yn gydnaws â bwriad gwreiddiol y ddarpariaeth mewn deddfwriaeth, ei fod yn deg i bob trethdalwr, ac nad yw'n tansilio'r cysyniad o ailbrisio. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r cynnig hwn cyn gynted â phosibl, i'w roi ar waith yn ystod rhestr ardrethu 2023.

## **Hysbysiadau cwblhau**

Ar hyn o bryd, caiff hysbysiad cwblhau ei gyflwyno gan awdurdod lleol mewn perthynas ag adeilad newydd. Mae'n ffordd o bennu'r dyddiad cwblhau ar gyfer yr



adeilad hwnnw. Mae awdurdodau lleol yn rhoi copiâu o'r hysbysiadau cwblhau a gyflwynir ganddynt i Asiantaeth y Swyddfa Brisió. Mae hyn yn galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisió i gwblhau prisiad a rhestru'r adeilad ar gyfer ardrethi annomestig. Nodwyd bwlch yn y weithdrefn hysbysiadau cwblhau, mewn perthynas ag adeiladau a gafodd eu dileu'n ddiweddar o'r rhestr ardrethu gan nad oes modd eu meddiannu am gyfnod dros dro (e.e. er mwyn eu hadnewyddu). Ar hyn o bryd, nid yw'r weithdrefn bresennol ar gyfer adeiladau newydd yn gymwys i eiddo a restrwyd yn flaenorol, pan fydd modd eu meddiannu eto, a all oedi'r broses o'u dychwelyd i'r rhestr ardrethu.

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau y gellir cyflwyno hysbysiad cwblhau mewn perthynas ag adeilad, er nad yw'n adeilad newydd ei hun, nad oedd modd ei feddiannu am gyfnod dros dro. Byddai hyn yn caniatáu iddo gael ei ychwanegu at restr neu ei dychwelyd at restr, gan ddefnyddio'r un broses ag ar gyfer adeiladau newydd. Bwriedir defnyddio'r un weithdrefn hefyd pan gaiff rhan o adeilad ei hychwanegu at adeilad presennol (e.e. fel estyniad neu er mwyn creu llawr newydd).

### **Newidiadau i'r rhestr ardrethu ganolog**

At ddibenion ardrethi annomestig, caiff hereditamentau naill ai eu rhestru ar y rhestr ardrethu leol neu'r rhestr ardrethu ganolog. Mae'r rhan fwyaf o hereditamentau ar y rhestr ardrethu leol, a ddelir gan awdurdodau lleol. Caiff y rheini sy'n croesi ffin awdurdodau lleol eu cynnwys ar y rhestr ar gyfer yr awdurdod lleol sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r hereditament yn ôl gwerth. Mae nifer bach o hereditamentau sy'n croesi ffiniau sawl awdurdod lleol wedi'u cynnwys ar y rhestr ardrethu ganolog, a ddelir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys hereditamentau rhwydwaith, fel piblinellau a cheblau. Telir biliau ardrethi annomestig ar gyfer eiddo ar y rhestr leol i'r awdurdod lleol perthnasol a thelir biliau ar gyfer y rhestr ganolog yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellir gwneud newidiadau i'r rhestr ardrethu ganolog, fel enw talwr ardrethi, ychwanegu neu ddileu talwr ardrethi, neu ddisgrifiad hereditament. Er mai anaml y mae hyn yn digwydd, mae'n creu baich gweinyddol anghymesur. O dan system o ailbrisiadau mwy rheolaidd, bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu'r rhestr ganolog yn amlach a sicrhau ei bod yn gyfredol. Rhagwelir y bydd yr angen am newidiadau o bosibl yn cynyddu, gan gynnwys er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y sector telathrebu a dyfodiad disgwylidig rhwydweithiau rheilffordd newydd a fydd yn croesi ffiniau sawl awdurdod lleol (e.e. rhwydweithiau metro).

Er mwyn galluogi i newidiadau gael eu gwneud mewn ffordd lai beichus, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid newid deddfwriaeth er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i Asiantaeth y Swyddfa Brisió ddangos, ychwanegu, newid, neu ddileu enwau pobl a disgrifiadau o hereditamentau a ddylai ymddangos ar y rhestr ardrethu ganolog. Caiff y pwerau cyfarwyddo hyn eu defnyddio yn lle'r broses bresennol ar gyfer gwneud rheoliadau a bydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gynnal y rhestr ardrethu ganolog mewn ffordd ragweithiol. Dim ond ar ôl ymgysylltu â'r talwyr ardrethi unigol dan sylw y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i newid y rhestr ardrethu ganolog.

## **Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau'r cyfleoedd i osgoi atebolrwydd o ran ardrethi annomestig. Er nad yw osgoi yn anghyfreithlon, mae'n ymddygiad sy'n creu trefniadau artiffisial er mwyn camfanteisio ar fuddiannau treth. Mae'n bwysig na chaiff ymdrechion y mwyafrif sylweddol i dalu'r hyn sy'n ddyledus eu tanseilio gan leiafrif sy'n benderfynol o gamfanteisio ar y system neu ei chamddefnyddio. Rydym wedi bod yn datblygu ac yn gweithredu cyfres eang o fesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi, yn dilyn [ymgyngoriad](#) yn 2018. Yn y gorffennol, aseswyd bod achosion o osgoi drwy ddulliau amrywiol yn arwain at o leiaf £10 miliwn i £20 miliwn y flwyddyn o reffeniw coll i wasanaethau llywodraeth leol hanfodol.

Tynnodd ein hymgyngoriad yn 2018 ac ymchwiliadau dilynol sylw at yr angen i addasu i ddulliau osgoi newidiol, gan fod dulliau osgoi a chyfraith achosion berthnasol yn datblygu'n barhaus. Mae natur osgoi treth yn golygu unwaith yr ymdrinnir ag un dull, y bydd dulliau ac ymddygiadau newydd yn dod i'r amlwg. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb mewn ffordd ôl-weithredol a rheolaidd i ymddygiadau penodol.

Mae rheolau cyffredinol yn erbyn osgoi trethi (GAAR) yn rhan gyffredin o systemau trethiant a gallant fod ar sawl ffurf wahanol. Yn y DU, mae CThEM yn gweithredu rheol yn erbyn camddefnyddio, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno GAAR ar gyfer ei threthi datganoledig ac un sy'n benodol ar gyfer ardrethi annomestig, ac mae Awdurdod Cyllid Cymru yn goruchwyllo GAAR ar gyfer y trethi datganoledig yng Nghymru (Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi).

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cyflwyno GAAR ar gyfer ardrethi annomestig, i'n galluogi i ymateb i ymddygiad osgoi a'i drechu. Mae'r egwyddorion cyffredinol a'r diffiniadau o ymddygiad osgoi yn debyg i'r rheini sy'n berthnasol yn yr Alban ac ar gyfer y trethi datganoledig yng Nghymru. Bwriedir i'r dulliau gweithredu hyn gael eu defnyddio fel sail ar gyfer datblygu GAAR ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru, gan ddarparu eglurder deddfwriaethol ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag achosion o osgoi.

## **Rheoliadau yn erbyn osgoi trethi**

Bwriedir i'r GAAR arfaethedig alluogi Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau sy'n anelu at ymdrin ag achosion o osgoi ardrethi annomestig, gan gynnwys mathau o ymddygiad na chânt eu defnyddio neu nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd, ond a all ddod i'r amlwg neu gael eu nodi yn y dyfodol. Byddai rheoliadau yn erbyn osgoi trethi yn ceisio atal neu leihau'r manteision sy'n deillio o drefniadau osgoi ardrethi annomestig sy'n artiffisial. Cynigir y dylid nodi'r paramedrau hyn a'u diffinio mewn cyfraith.

Byddai mantais yn cael ei diffinio fel amgylchiadau sy'n cynnwys y canlynol: osgoi asesiad posibl, dyledion na chânt eu casglu, rhyddhad (neu lefel uwch o ryddhad), ad-daliad (neu lefel uwch o ad-daliad), a gohirio taliad neu cael ad-daliad yn gynt. Wrth benderfynu a yw trefniant yn erbyn osgoi trethi wedi arwain at fantais, bwriedir y dylid ystyried swm yr ardrethi annomestig a fyddai wedi bod yn daladwy fel arall.

Byddai trefniant (neu gyfres o drefniadau) yn cael ei ddiffinio fel trefniant osgoi pe byddai'n rhesymol dod i'r casgliad mai cael mantais yw prif ddiben (neu un o brif ddibenion) y trefniant hwnnw. Gall trefniant gynnwys cytundeb, trafodiad, ymgymeriad, gweithred neu ddiwyddiad, dealltwriaeth, addewid neu grant, boed yn orfodadwy yn gyfreithiol ai peidio. Byddai'r fantais sy'n gysylltiedig â'r trefniant yn cael ei hystyried fel mantais sydd o fudd i'r talwr ardrethi.

Byddai trefniant yn cael ei ystyried yn artiffisial os nad yw'n gam gweithredu rhesymol neu os nad oes ganddo sylwedd economaidd neu fasnachol. Wrth benderfynu a yw trefniant yn gam gweithredu rhesymol, dylid ystyried a yw'n gyson â'r fframwaith polisi a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ardrethi annomestig neu a fwriedir iddo gamfanteisio ar unrhyw ddiffygion o fewn y fframweithiau hynny.

Mae sylwedd economaidd neu fasnachol yn digwydd mewn sefyllfaoedd lle, ac eithrio lleihau'r atebolrwydd i dalu trethi, y ceir risg, newid mewn gwerth neu ystyriaeth o ran amseru sy'n gysylltiedig â'r trefniant. Lle na fydd unrhyw un o'r materion hyn yn digwydd, ond y caiff yr atebolrwydd i dalu trethi ei leihau, gellir nodi ei fod yn drefniant y bwriadwyd iddo osgoi'r dreth. Mae enghreifftiau o amgylchiadau a allai olygu nad oes gan drefniant sylwedd economaidd neu fasnachol gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- fe'i gwneir mewn ffordd na fyddai'n arferol fel rhan o ymddygiad busnes rhesymol;
- mae nodweddion cyfreithiol y camau cysylltiedig yn anghyson â sylwedd cyfreithiol y trefniadau cyffredinol;
- mae'n cynnwys elfennau sy'n gwrthbwysu neu'n canslo ei gilydd;
- mae'r trafodion cysylltiedig yn gylchol eu natur;
- mae'n arwain at fantais na chaiff ei hadlewyrchu yn y risgiau busnes cysylltiedig.

Bwriedir i'r GAAR arfaethedig alluogi Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau i drechu achosion o osgoi ardrethi annomestig. Bwriedir y bydd yn cynnwys mesurau fel rhagnodi cyfundrefn cosb sifil a rhoi pwerau i awdurdodau lleol weithredu mesurau yn erbyn osgoi trethi, fel rhan o'u rôl yn gweinyddu ardrethi annomestig, os yw'n briodol.

Byddai angen ymgynghori ymhellach ar y broses o ddatblygu mesurau penodol o dan y GAAR arfaethedig.

### **Cwestiynau am welliannau i'r broses o weinyddu prisiadau a rhestrau ardrethu**

Wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, dylech gynnwys rhesymau dros eich atebion ac unrhyw dystiolaeth ategol.

#### **Cwestiwn 13**

A oes gennych unrhyw farn ar gynigion i sicrhau y caiff newidiadau mewn ffactorau economaidd, amodau'r farchnad neu newidiadau yn lefel gyffredinol rhenti eu hystyried drwy ailbrisiadau mwy rheolaidd, yn hytrach nag fel newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau rhwng ailbrisiadau?

**Cwestiwn 14**

A ydych o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig i weithdrefnau hysbysiadau cwblhau yn helpu i sicrhau y caiff pob eiddo ei restru ar gyfer ardrethi annomestig mewn ffordd amserol?

**Cwestiwn 15**

A oes gennych unrhyw farn ar gynigion i wella'r broses o weinyddu'r rhestr ardrethu ganolog?

**Cwestiwn 16**

A oes gennych unrhyw farn ar gynigion ar gyfer rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi ar gyfer ardrethi annomestig mewn egwyddor?

**Cwestiwn 17**

A ydych o'r farn y dylai fod gan awdurdodau lleol fwy o bwerau i'w galluogi i drechu achosion o osgoi talu ardrethi annomnestig yn effeithiol?

# Dulliau gweithredu eraill mewn perthynas â chodi trethi lleol

Mae'r adran hon yn ceisio barn ar ddulliau gweithredu gwahanol mewn perthynas â threthiant lleol a'r opsiynau ar gyfer newid tymor hwy sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

## Treth gwerth tir leol

Er bod y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar newidiadau i ardrethi annomestig yn y tymor byr a'r tymor canolig, mae opsiynau ar gyfer diwygiadau mwy sylfaenol yn parhau'n flaenoriaethau i'w hystyried yn y tymor hwy.

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad [Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau](#). Ochr yn ochr â diwygiadau i'r dreth gyngor, aeth yr adroddiad cynhwysfawr hwn ati i ystyried sut y gellid gwella'r system ardrethi annomestig, ystyriodd newidiadau i'r dreth bresennol, ac edrychodd ar y potensial i symud mewn ffordd fwy sylfaenol tuag at dreth gwerth tir leol.

Rydym yn parhau i ystyried y potensial ar gyfer treth gwerth tir leol yn lle ardrethi annomestig a'r dreth gyngor, gan adeiladu ar [asesiad technegol](#) manwl Prifysgol Bangor. Er bod yr asesiad hwnnw ar gam cynnar iawn o'r broses feddwl, dyma oedd y gwaith mwyaf manwl a oedd wedi'i gynnal ar y pryd i ystyried treth gwerth tir leol yn benodol i Gymru, a chan ddefnyddio data am brisiadau tir yng Nghymru.

Yn ystod y pedair blynedd nesaf, byddwn yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw, gan fanteisio ar amrywiaeth eang o arbenigedd, i feithrin dealltwriaeth glir o ffurf bosibl treth gwerth tir leol i Gymru a sut y gallai weithio'n ymarferol. Bydd y dadansoddiad hwn yn cynnwys map ffordd ar gyfer proses weithredu bosibl. Byddai unrhyw gynigion a luniwn o ran dylunio neu gweithredu treth lleol gwerth tir yn destun ymgynghoriad manwl.

## Cwestiynau am ddulliau gweithredu eraill mewn perthynas â chodi trethi lleol

Wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, dylech gynnwys rhesymau dros eich atebion ac unrhyw dystiolaeth ategol.

### **Cwestiwn 18**

Beth yw eich barn ar ddefnyddio dull amgen, fel treth gwerth tir leol, mewn perthynas â chodi trethi lleol, yn y tymor hwy?

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

Wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, dylech gynnwys rhesymau dros eich atebion ac unrhyw dystiolaeth ategol.

## Cwestiynau o ran galluogi ailbrisiadau mwy rheolaidd

### **Cwestiwn 1**

A ydych yn cytuno y dylid cynnal ailbrisiadau o leiaf unwaith bob tair blynedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau tegwch yn y system drwy wneud yn siŵr y caiff prisiadau eu diweddarau'n amlach i adlewyrchu amodau economaidd newidiol? Beth yw eich rhesymau dros eich ateb?

### **Cwestiwn 2**

A ydych o'r farn y dylid cynnal ailbrisiadau yn amlach na bob tair blynedd? Os felly, pa mor aml fydddech chi'n ei awgrymu?

### **Cwestiwn 3**

A ydych o'r farn y dylai'r bwlch rhwng y dyddiad prasio rhagflaenol a dyddiad cynnal yr ailbrisiad fod yn llai na dwy flynedd, os yn bosibl, yn y dyfodol?

### **Cwestiwn 4**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion i greu dyletswydd ar dalwyr ardrethi i roi gwybod i Asiantaeth y Swyddfa Brisio os bydd gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r hereditament yn newid, a'r ddyletswydd newydd i roi cadarnhad blynyddol, er mwyn cefnogi ailbrisiadau mwy rheolaidd a helpu i gadw rhestrau ardrethu cywir?

### **Cwestiwn 5**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion ar gyfer cyfundrefn gydymffurfio gymesur i gefnogi'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth? Yn arbennig, a ydych o'r farn bod y cosbau arfaethedig yn deg ac yn gymesur?

### **Cwestiwn 6**

A yw'r amserlenni arfaethedig yn rhoi digon o amser i dalwyr ardrethi gyflawni eu rhwymedigaethau? Os nad ydynt, o dan ba amgylchiadau na fyddai hyn yn bosibl?

## Cwestiynau am ddarparu rhyddhadau ac esemptiadau

### **Cwestiwn 7**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynnig i gynnal adolygiad o gynlluniau rhyddhad ac unrhyw farn o ran sut y dylid ystyried eu heffeithiolrwydd? Pa ffactorau y dylai adolygiad eu hystyried?

### **Cwestiwn 8**

A oes gennych unrhyw farn ar ein cynigion i alluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio, dileu a chreu rhyddhadau statudol newydd drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?

### **Cwestiwn 9**

A oes gennych unrhyw farn ar y cynnig i Lywodraeth Cymru gael mwy o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer esemptiadau drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?

### **Cwestiwn 10**

Beth yw eich barn ar y cynnig i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddyfarnu rhyddhad dewisol ôl-weithredol?

## **Cwestiynau am amrywio'r lluosydd**

### **Cwestiwn 11**

Beth yw eich barn ar gynigion i roi'r gallu i Lywodraeth Cymru amrywio'r lluosydd ar gyfer eiddo a ddefnyddir at ddibenion gwahanol, eiddo â gwerth ardrethol gwahanol ac eiddo mewn lleoliadau daearyddol gwahanol, er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?

### **Cwestiwn 12**

A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer paramedrau y gellid eu hystyried wrth amrywio'r lluosydd?

## **Cwestiynau am welliannau i'r broses o weinyddu prisiadau a rhestrau ardrethu**

### **Cwestiwn 13**

A oes gennych unrhyw farn ar gynigion i sicrhau y caiff newidiadau mewn ffactorau economaidd, amodau'r farchnad neu newidiadau yn lefel gyffredinol rhenti eu hystyried drwy ailbrisiadau mwy rheolaidd, yn hytrach nag fel newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau rhwng ailbrisiadau?

### **Cwestiwn 14**

A ydych o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig i weithdrefnau hysbysiadau cwblhau yn helpu i sicrhau y caiff pob eiddo ei restru ar gyfer ardrethi annomestig mewn ffordd amserol?

### **Cwestiwn 15**

A oes gennych unrhyw farn ar gynigion i wella'r broses o weinyddu'r rhestr ardrethu ganolog?

### **Cwestiwn 16**

A oes gennych unrhyw farn ar gynigion ar gyfer rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi ar gyfer ardrethi annomestig mewn egwyddor?

### **Cwestiwn 17**

A ydych o'r farn y dylai fod gan awdurdodau lleol fwy o bwerau i'w galluogi i drechu achosion o osgoi talu ardrethi annomestig yn effeithiol?

## **Cwestiynau am ddulliau gweithredu eraill mewn perthynas â chodi trethi lleol**

### **Cwestiwn 18**

Beth yw eich barn ar ddefnyddio dull amgen, fel treth gwerth tir leol, mewn perthynas â chodi trethi lleol, yn y tymor hwy?

## **Cwestiynau am agweddau eraill ar ddiwygio ardrethi annomestig**

### **Cwestiwn 19**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am ddiwygio ardrethi annomestig. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol neu os hoffech gyflwyno sylwadau ar agweddau eraill ar ddiwygio ardrethi annomestig, defnyddiwch y lle hwn i nodi eich sylwadau.

## **Cwestiynau am y Gymraeg**

Mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd addysg Gymraeg, ac mae'n gweithio tuag at y nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (cadarnhaol neu andwyol) y gallai ein cynigion ar gyfer diwygio ardrethi annomestig eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Cwestiwn 20**

Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

1. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
2. na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Cwestiwn 21**

Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y cynigion, yn eich barn chi, er mwyn:

1. sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
2. atal unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Y camau nesaf**

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, caiff yr ymatebion eu hystyried a chaiff y camau nesaf eu cadarnhau maes o law.